CYLCHLYTHYR I'R DIWYDIANT CYHOEDDI LLYFRAU YNG NGHYMRU

MEDI 2002 Rhif 27

mewn print

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

CYFLWYNIAD

Yn dilyn prysurdeb y Sioe a'r Eisteddfod, y mae'r Cyngor Llyfrau eisoes wedi dechrau ar y paratoadau ar gyfer y Nadolig. Mae'n fwriad gan yr Adran Farchnata gyhoeddi dau atodiad eto eleni, sef un o lyfrau Cymraeg ac un o lyfrau Saesneg. Fe fydd aelodau newydd o'n staff hefyd yn setlo i mewn i'w swyddi newydd ac felly mae'n argoeli'n dda i fod yn gyfnod prysur arall i ni i gyd.

DYCHWELYD I GYMRU I HYBU LLYFRAU

Penodwyd Wendy Morris, sy'n enedigol o Aberystwyth, i swydd newydd gyda'r Cyngor Llyfrau, gan gymryd cyfrifoldeb am oruchwylio gwaith y cynrychiolwyr sy'n ymweld â'r siopau llyfrau.

Mae Wendy yn hen gyfarwydd â rheoli gwaith timau gwerthu gan ei bod wedi gweithio gyda phapur newydd y *Telegraph* yn Llundain am dros ddeng mlynedd, gan hyfforddi a rheoli rhai o'u prif dimau gwerthu hysbysebion.

'Fe fydd cael Wendy i lywio a rheoli gwaith y cynrychiolwyr yn sicr o gymorth mawr i'r gwasanaeth rydym yn gallu ei gynnig,' meddai Phil Davies, Pennaeth Adran Farchnata'r Cyngor, 'ac mae eisoes wedi setlo'n dda yn ei swydd newydd.'

Mae Wendy hefyd yn falch o'r sialens newydd i hybu llyfrau ac o gael y cyfle i symud yn ôl i'w thre enedigol. 'Rwyf yn gyfarwydd iawn â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwerthu,' meddai, 'ac rwy'n edrych ymlaen at gael cyfle i'w defnyddio er budd y byd llyfrau yng Nghymru.'

ENILLWYR YR EISTEDDFOD

Rydym yn falch o'r cyfle i gael llongyfarch Eirug Wyn ac Angharad Price ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod. Mae adolygiadau o'r ddwy gyfrol fuddugol eisoes wedi ymddangos ar wefan gwales.com.

Dyma ddyfyniadau ohonynt:

Bitsh! –
Gwobr Goffa Daniel Owen 2002, Eirug Wyn

'Pe bai modd iddo botelu'i egni dychmygus, gallai Eirug Wyn wneud ei ffortiwn …: Dyma nofel fuddugol Gwobr Goffa Daniel Owen 2002, a chystal cyflwyniad i'w waith â'r un.'

Robin Chapman

O! Tyn y Gorchudd – Hunangofiant Rebecca Jones – Cyfrol y Fedal Ryddiaith 2002, Angharad Price



Ceir yma glasur o gofiant i deulu cyfan . . . , ond yn fwy na dim mae pleser y gyfrol ym mhortreadau byw yr awdures; os oedd Lewis, un o'r brodyr, yn arlunydd da â'i baent, yna mae Angharad Price hithau wedi etifeddu'r un anian ac yn arlunydd gwych â'i geiriau.'

Gwenllïan Dafydd

Cofiwch bod croeso i unrhyw un ychwanegu ymateb i'r adolygiadau hyn ar y wefan, a byddai'n dda o beth derbyn barn pobl am y cyfrolau.

ATODIADAU'R NADOLIG

Unwaith eto mae'n fwriad gan Adran Farchnata'r Cyngor Llyfrau gynhyrchu atodiadau lliwgar fydd yn cyflwyno cynnyrch y Nadolig. Mae gwybodaeth eisoes wedi ei hanfon at y cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr ynglŷn â'r atodiad *Gwledd y Nadolig* fydd yn cael ei ddosbarthu gyda'r papurau bro, a hefyd yr atodiad o lyfrau Saesneg *Books from Wales*, fydd yn cael ei ddosbarthu gyda'r *Western Mail*. Mae croeso i unrhyw un gysylltu â Phil Davies yn Adran Farchnata'r Cyngor am fwy o wybodaeth (phil.davies@cllc.org.uk).

Bydd yr adran hefyd yn cynhyrchu cyfres o hysbysebion teledu fydd yn cael eu darlledu ar S4C yn ystod mis Rhagfyr.

ARIAN CYNGOR Y CELFYDDYDAU

Yn dilyn ailstrwythuro oddi mewn i Gyngor Celfyddydau Cymru yn ddiweddar, mae bwriad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am weinyddu holl gynlluniau cyhoeddi Cyngor y Celfyddydau i'r Cyngor Llyfrau o Ebrill 2003 ymlaen.

Y Cyngor Llyfrau, felly, fel y corff cenedlaethol sy'n hyrwyddo cyhoeddi a'r fasnach lyfrau, fydd yn rheoli holl bortffolio cyhoeddi presennol Cyngor Celfyddydau Cymru. Fel rhan o'r newid fe fydd yr Academi Gymreig yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am weinyddu'r cynlluniau sy'n ymwneud ag awduron.

'Mae'r newid yn gwneud synnwyr mewn egwyddor,' meddai Gwerfyl Pierce Jones, 'gan y bydd hyn yn golygu mai un corff yn unig fydd yn cynnig grantiau i gyhoeddwyr ar gyfer llyfrau Cymraeg a Saesneg. Yn naturiol, fe fydd hi'n haws wedyn i'r corff hwnnw ddadlau achos yr holl ddiwydiant cyhoeddi yng Nghymru.'

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR LLYFRAU

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Llyfrau yn Llandrindod eleni, ar wahoddiad Cyngor Sir Powys. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2 o'r gloch, ddydd Iau 28 Tachwedd, ac mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yno. Byddem yn falch o gael gwybod ymlaen llaw os ydych yn bwriadu bod yn bresennol er mwyn i ni gael gwneud y trefniadau angenrheidiol.

LLWYDDIANT Y SIOE A'R EISTEDDFOD

Bu'r Sioe Amaethyddol a'r Eisteddfod Genedlaethol yn llwyddiannus iawn eleni, gyda'r Cyngor Llyfrau'n cynnal nifer o lansiadau yn y ddau achlysur. Gan i'r Sioe Amaethyddol gael ei gohirio y llynedd, roedd yn braf iawn bod yn ôl yn Llanelwedd, ac er na fu'r tywydd yn garedig yn Nhyddewi, fe gafwyd wythnos dda yno.

Bu Menna Elfyn, Bardd Plant Cymru 2002, mewn trafodaeth gyda'r cyflwynydd teledu Catrin Beard, a chafwyd orig ddiddorol yn y Babell Lên yn gwrando arni'n sôn am ei gwaith.

Swyddog Uwchradd Newydd

Mae Shoned Jones o Wrecsam wedi dechrau ar ei swydd fel Swyddog Uwchradd y Cyngor Llyfrau, gan ymweld â phob ysgol uwchradd yng Nghymru yn ei thro i arddangos y deunyddiau diweddaraf ac i gymryd archebion.

Mae Shoned yn hen gyfarwydd â'r byd llyfrau gan iddi fod yn gweithio yn Siop y Siswrn, Yr Wyddgrug, am ddeuddeg mlynedd. Mae'n gyfarwydd â chynghori athrawon ynglŷn â deunyddiau addas, ac â threfnu arddangosfeydd deniadol yn ôl y galw.

'Mae'r swydd hon yn gyfle gwych i mi barhau i weithio ym myd llyfrau, a theimlaf y gallaf ddefnyddio'r holl sgiliau rwyf wedi eu meithrin dros y blynyddoedd i gynorthwyo athrawon i ddewis llyfrau ar gyfer eu dosbarthiadau,' meddai Shoned.

Fe gofiwch bod y Swyddog Uwchradd yn arfer teithio trwy Gymru benbaladr mewn fan fawr, ond daeth tro ar fyd erbyn hyn. Bydd Shoned yn teithio mewn fan lai ei maint, a fydd yn hwyluso ei thaith o amgylch Cymru.

Estyn Allan i'r Priffyrdd a'r Caeau

Yn dilyn cais llwyddiannus am arian i hyrwyddo darllen, mae cynllun Estyn Allan wedi penodi Siân Ashman o Odre'r Graig, Abertawe, yn gydlynydd i'r gweithgareddau.

Mae Siân ar hyn o bryd yn gweithio i wasanaeth llyfrgell Nedd/Port Talbot ac mae'n edrych ymlaen yn fawr at ddechrau ar ei dyletswyddau newydd. A hithau'n rhugl yn y Gymraeg, mae Siân yn frwd iawn i hyrwyddo llyfrau o Gymru i gynulleidfa newydd ac i ddenu mwy o bobl i ymweld â'u llyfrgell leol.

Cyfeillion Newydd

Bu rhai o aelodau Cyfeillion y Cyngor Llyfrau wrthi'n brysur yn y Neuadd Arddangos ar faes Eisteddfod Tyddewi yn casglu enwau aelodau newydd. Cawsant lwyddiant arbennig yno, a bellach rydym wedi croesawu nifer o Gyfeillion ychwanegol atom.

Bwriad y Pwyllgor Llywio yw gofyn i rai aelodau mewn ardaloedd penodol gymryd gofal am gasglu rhagor o aelodau. Hyderwn felly y gallwn gynyddu'r aelodaeth o'r 400 presennol.

Mae croeso i unrhyw un sy'n awyddus i ymaelodi neu i dderbyn mwy o wybodaeth am y Cyfeillion gysylltu ag Elwyn Jones yn y Cyngor Llyfrau (elwyn.jones@cllc.org.uk).

Arian i Awduron

Fel y gwyddoch bellach, bu cynnydd o £250,000 yn y Grant Cyhoeddi ar gyfer llyfrau Cymraeg yn ddiweddar, ac y mae rhai o awduron amlycaf Cymru ymhlith y rhai fydd yn derbyn comisiynau gan gyhoeddwyr i ysgrifennu llyfrau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cafodd y Cyngor Llyfrau ymateb arbennig o dda gan y cyhoeddwyr pan wahoddwyd ceisiadau am arian, ac mae hynny'n cadarnhau'r farn fod yna nifer o awduron disglair yn awyddus i ysgrifennu.

Ymhlith y 12 awdur cyntaf i dderbyn y taliadau comisiwn bydd MANON RHYS, BETHAN GWANAS, SONIA EDWARDS, PENRI JONES a DAFYDD HUWS. Bydd DAI JONES a LYN EBENEZER hefyd yn cydweithio ar gyfrol am y gyfres deledu 'Cefn Gwlad', llyfr fydd yn ddilyniant teilwng i *Fi Dai Sy' 'Ma*, un o werthwyr gorau'r blynyddoedd diwethaf. Bydd yr awduron hyn yn derbyn y prif gomisiynau, sef rhwng £5,000 a £10,000, i'w galluogi i gael amser rhydd i ysgrifennu.

'Rydym wedi nodi lawer gwaith fod rhai o'n hawduron amlycaf yn awyddus iawn i ysgrifennu llyfrau poblogaidd ar gyfer y farchnad Gymraeg,' meddai Gwerfyl Pierce Jones, Cyfarwyddwr y Cyngor Llyfrau. 'Mae'r ceisiadau a ddaeth i law ar gyfer yr arian newydd hwn yn ategu hynny.'

Roedd Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch, yn croesawu'r datblygiad yn fawr:

'Ers canrif a mwy mae cyhoeddwyr Cymraeg wedi dibynnu ar ewyllys da awduron sy'n fodlon rhoi eu hamser i sgwennu llyfrau yn yr iaith. Dan y cynllun newydd hwn, rydan ni'n medru cynnig cytundebau tecach am y gwaith. Drwy fedru prynu amser, bydd cynnyrch nad oedd o fewn ein cyrraedd o'r blaen yn dod i olau dydd.'

Dyma restr o'r awduron sydd wedi derbyn y prif gomisiynau (£5,000-£10,000):

Elgan Philip Davies	Nofel ddirectif, dilyniant i *Fel y Dur*
Geraint Lewis	Nofel gyfoes ddoniol am fywyd yng Nghaerdydd
Ioan Roberts	Llyfr am brofiadau Cymry yn Rhyfel y Falklands
Bethan Gwanas	Nofel i oedolion ifanc
Sioned Lleinau Thomas	Nofel am glwb ffermwyr ifanc gan awdur newydd
Manon Rhys	Nofel yn dilyn hynt tri theulu yn y Rhondda, 1953–2002
Meleri Wyn James	Nofel gyfoes gan awdur nofelau *Catrin Jones*
Sonia Edwards	Nofel gyfoes gan enillydd y Fedal Ryddiaith
Dai Jones a Lyn Ebenezer	Llyfr am y gyfres 'Cefn Gwlad'
Penri Jones	Nofel i'r arddegau hŷn gan awdur *Jabas*
Dafydd Huws	Nofel am fywyd yng Nghaerdydd gan awdur *Dyddiadur Dyn Dwad*.
Rhys Evans	Cofiant i Gwynfor Evans gan un o ohebwyr y BBC

Rhestr Fer Booker

Mae dau awdur o Gymru ar y rhestr fer o 20 o lyfrau ar gyfer gwobr Booker eleni. Cafodd y nofel *The Strange Case of Dr Simmonds and Dr Glass* gan Dannie Abse ei chynnwys, yn ogystal â nofel gan Sarah Waters, *Fingersmith*. Y tro diwethaf i awdur o Gymru ennill y wobr oedd yn 1970 gyda Bernice Rubens am ei chyfrol *The Etched Member*. Cyhoeddir yr enillydd ar 22 Hydref.

Gŵyl y Gair yn Aberystwyth

Mae trefnwyr Gŵyl y Gair eleni wedi sicrhau rhaglen ddifyr ac amrywiol. Cynhelir yr Ŵyl yn Aberystwyth rhwng 3–5 Hydref pryd y bydd Wiliam Owen Roberts, Jon Meirion Jones, Mererid Hopwood, Nesta Wyn Jones ac Elin ap Hywel ymhlith y siaradwyr. Gellir gweld y rhaglen gyfan trwy ymweld â www.gwyl-y-gair.org.uk.

Diwrnod y Llyfr 2003

Mae'r gwaith o drefnu rhaglen digwyddiadau Diwrnod y Llyfr eisoes ar waith, ac mae Delyth Humphreys wedi cynnal nifer o gyfarfodydd llwyddiannus a fydd, gobeithio, yn esgor ar ddigwyddiadau cyffrous drwy Gymru gyfan. Os oes gennych chi unrhyw syniadau yr hoffech eu trafod gyda Delyth ar gyfer Diwrnod y Llyfr – 6 Mawrth, 2003 – mae croeso i chi gysylltu â hi yn y Cyngor Llyfrau yn Aberystwyth (delyth.humphreys@cllc.org.uk).

Cynhadledd Llyfrau Plant, 1–2 Tachwedd, Aberystwyth: Croesi'r Ffiniau

Mae naws ryngwladol i'r gynhadledd eleni, gyda'r ddarlith agoriadol yn cael ei thraddodi gan yr awdures Beverley Naidoo, a aned yn Ne Affrica. Pan ryddhawyd Nelson Mandela o'r carchar, cafodd hi ddychwelyd i'w gwlad wedi chwe blynedd ar hugain o fyw'n alltud. Yn ogystal, bydd Robert Dunbar a Gráinne Darlington o'r Iwerddon yn dod i sôn am eu gwaith yn hyrwyddo llyfrau stori-a-llun o Ewrop.

Mae barddoniaeth Gymraeg yn cael cryn sylw hefyd, gydag Einir Jones, Aled Lewis Evans a Tudur Dylan yn trafod eu gwaith. Yn ystod y gynhadledd bydd Gwobrau Tir na-n-Og yn cael eu cyflwyno i'r awduron buddugol gan Jenny Randerson AC, y gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r laith Gymraeg.

PWYNT CYSWLLT

Bydd y rhifyn nesaf o *Mewn Print* yn ymddangos ganol Tachwedd.

Dylai unrhyw wybodaeth i'w chynnwys ynddo gael ei hanfon erbyn canol Hydref at:

Elwyn Jones, Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB.

(E-bost: elwyn.jones@cllc.org.uk)

Gellir darllen y rhifyn hwn o *Mewn Print* ar y we: **www.cllc.org.uk**